


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Grant Cynhyrchu Cynaliadwy

# Dogfen Ategol, Canllaw Arfarnu Technegol a Dilysu

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru –
Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru

2014-2020

# Cynnwys

**CYFLWYNIAD**

**ADRAN A–CYNLLUN BUSNES PUM MLYNEDD A CHYFRIFON ARDYSTIEDIG**

**ADRAN B – DYFYNBRISIAU**

**ADRAN C – CYNLLUN RHEOLI MAETHYNNAU**

**ADRAN D – CYNLLUN EFFEITHLONRWYDD DŴR**

**ADRAN E – MEINI PRAWF CRAIDD**

- **Ariannol a Chydymffurfio**
- **Darparu**
- **Rheoli Gweithrediad**
- **Gwerth am Arian (gweler DYFYNBRISIAU yn Adran B)**
- **Dangosyddion a Chanlyniadau**
- **Addasrwydd Buddsoddiad**
- **Themâu Trawsbynciol**
- **Cynaliadwyedd Tymor Hir**

**ADRAN F – HAWLIADAU AM DALIAD – DILYSU DOGFENNAETH ATEGOL**

© Hawlfraint y Goron 2019 ISBN digidol: 978-1-78964-668-9 

## CYFLWYNIAD

Mae’r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG), sydd ar gael o dan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd a ddewiswyd i ddarparu dogfennaeth a gwybodaeth benodol i gefnogi eu cais am gontract SPG. Caiff y dogfennau hyn eu hasesu a’u gwirio gan Lywodraeth Cymru i benderfynu ar gymhwysedd yr ymgeisydd am gontract a grant.

Mae’r llyfryn hwn yn rhoi arweiniad ar y gweithdrefnau arfarnu technegol a dilysu a ymgymerir gan Lywodraeth Cymru i helpu ymgeiswyr baratoi a llenwi dogfennau cwbl gynhwysfawr i gefnogi eu cais. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwiriadau ychwanegol, yn ôl yr angen, pe bai unrhyw risg neu anghysondeb yn cael ei nodi yn ystod yr arfarniad.

Dylid cyflwyno pob dogfen ategol trwy gyfrif RPW Ar-lein yr ymgeiswyr.

Bydd angen i’r ymgeisydd gadw cofnodion sydd yn ymwneud ar cais a’r hawliad am grant, yn cynnwys yr anfonebau gwreiddiol ac unrhyw ddogfenau perthnasol eraill am o leiaf saith mlynedd wedi’r dyddiad cymeradwyo.

Mae’n bwysig bod ymgeiswyr llwyddiannus yn darllen y llyfryn hwn, ynghyd â phob canllaw cynllun SPG, sydd ar gael ar Grant Cynhyrchu Cynaliadwy | beta.gov.wales. Gallai methu â gwneud hynny arwain at wrthod cais.

**PWYSIG**

**Dim ond ymgeiswyr SPG sydd wedi'u hysbysu eu bod wedi’u dewis gan Lywodraeth Cymru ar ôl cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb yn llwyddiannus, sy'n gorfod llenwi a chyflwyno'r dogfennau canlynol ar gyfer arfarniad technegol gan Lywodraeth Cymru.**

**Os ydych yn ansicr a yw hyn yn berthnasol i chi, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 neu trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein.**

## ADRAN A - CYNLLUN BUSNES PUM MLYNEDD A CHYFRIFON ARDYSTIEDIG TAIR BLYNEDD

Er mwyn pennu hyfywedd busnes, dilysrwydd buddsoddiad arfaethedig a'r angen am grant, mae angen cynllun busnes 5 mlynedd manwl o'r busnes cyfan. Yn ogystal, mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu 3 blynedd o Gyfrifon Ardystiedig. Ni ddylai'r cynllun ganolbwyntio'n unig ar y grant cyfalaf y gofynnir amdano, ond bod yn gynllun cyfannol wedi'i gyfeirio at ddyfodol y busnes, yn hytrach na chynllun wedi'i ddylunio'n unig i sicrhau grant.

Gall ymgeiswyr ddarparu eu cynllun eu hunain neu efallai y byddant am gysylltu ag ymgynghorydd amaethyddol.

### Fformat yr Arfarniad

Bydd arfarniad o'r cynllun busnes a chyfrifon ardystiedig yn ystyried y canlynol:

- Gwerthusiad o'r cynllun, i gynnwys:
    - Busnes Presennol
    - Arferion Fferm
    - Tir
    - Llafur
    - Peirianwaith
    - Adeiladau
    - Da byw
    - Cnydio
- Sefyllfa ariannol y busnes, i gynnwys gorbenion ariannol a throsiant, materion a phryderon.
- Sut caiff y prosiect ei ariannu yn ogystal ag unrhyw ddyraniad o grant. Rhagolygon masnachu a sut y bydd y busnes yn ymdopi. Rhoddir ystyriaeth hefyd i unrhyw faterion llif arian a nodir fel rhan o'r arfarniad.
- Tystiolaeth y bydd y buddsoddiad ac unrhyw fuddsoddiad a gynllunir wedyn yn arbed arian neu'n gostwng costau ac unrhyw fuddion y byddai'n ei roi i'r busnes presennol.
- Buddion i'r economi wledig ehangach.
- Sut bydd y busnes yn fwy proffidiol a bod elw'n ddigonol ar gyfer y dyfodol, er enghraifft, elw mewn perthynas ag anghenion arian parod.
- Cryfderau a Gwendidau'r busnes.
- Risgiau a ddynodwyd a allai effeithio ar gyflawni'r prosiect arfaethedig.
- Archwilio'r cyfrifon diweddaraf i bennu:
    - elw cadarnhaol yn y cyfrif elw a cholled;
    - mantolen gadarnhaol llai sefyllfa ased cyfredol (cyfalaf gweithio) ac unrhyw esboniadau a roddir.

- A yw’r buddsoddiad yn gofyn am gael ei gyfrifo yn y rhagolygon ariannol ac a yw'r rhagolygon yn rhesymol o’i gymharu â blynyddoedd blaenorol.
- Dangos pam bod y prosiect yn angenrheidiol ar gyfer y busnes ar hyn o bryd.
- Sut bydd y prosiect yn cyflawni newid sylweddol mewn arfer gorau a moderneiddio yn y busnes.
- Darparwyd tystiolaeth sy'n dangos na fyddai’r prosiect, heb grant, yn mynd rhagddo. Os yw'r angen am grant yn ariannol, a yw'r rhagolygon llif arian yn dangos diffyg ariannol heb gefnogaeth grant?
- Yr angen am ganiatâd cynllunio llawn neu dystiolaeth gan yr awdurdod cynllunio nad oes angen caniatâd cynllunio.
- Ymchwiliad pellach gyda'r ymgeisydd os canfyddir unrhyw risg neu anghysondeb yn ystod yr arfarniad.
- Cydymffurfiad ag eitemau a ariennir gyda Gofynion Rheoleiddiol a'r rhai a restrir yn SPG Atodiad A, gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol:
    - SSAFO;
    - Rheoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) Cymru 2016;
    - BS 5502;
    - Caniatâd CNC/awdurdod lleol, lle mae buddsoddiadau’n effeithio ar systemau storio slyri neu silwair, neu’n gallu effeithio ar lif dŵr.

## ADRAN B - DYFYNBRISIAU

Rhaid i bob ymgeisydd gyfeirio at Nodiadau Cyfarwyddyd Technegol Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar gael ar y ddolen hon [Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 i 2020: canllaw technegol i dendro cystadleuol a chaffael cyhoeddus | beta.gov.wales](#).

Rhaid i bob ymgeisydd gofnodi a chadw eu cofnodion ar gyfer bob tendro cystadleuol, drwy ddefnyddio Cofrestr a Chofnod Tendro Cystadleuol Llywodraeth Cymru ar gael ar y ddolen amgaeedig [Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 i 2020: templed tendro cystadleuol a chaffael cyhoeddus | beta.gov.wales](#).

Mae’r ymgeisydd yn gyfrifol am sicrhau y dilynir y broses dendro gystadleuol yn gywir, wedi’i dogfennu’n llawn a bod y ddogfennaeth ar gael pan wneir cais.

Os yr ydych yn ystyried prynu cyfarpar ail law ac nid ydych yn siŵr sut arlwyo tystiolaeth megis dyfynbrisiau, cysylltwch â’r Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid ar 0300 062 5004 am gyngor.

Mae yna risg sylweddol y gellir adennill y grant yn llawn neu’n rhannol, os na ddilynir y broses dendro gystadleuol yn gywir, ac na chedwir dogfennaeth ategol.

**Fformat yr Arfarniad**

Bydd gwiriadau arfarnu o bob dyfynbris a gyflwynir yn cynnwys y canlynol:

- Cydymffurfio â gweithdrefnau a gofynion Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus Llywodraeth Cymru;
- Costau rhesymol;
- Rhesymau a rhesymeg wedi'u rhoi gan yr ymgeisydd os nad y cyflenwr rhataf yw'r dyfynbris a ffefrir;
- Cymaroldeb a phrydlondeb dyfynbrisiau;
- Ymchwiliad pellach i'r ymgeisydd a/neu'r cyflenwr gan Lywodraeth Cymru, os canfyddir unrhyw risg neu anghysondeb yn ystod yr arfarniad;
- Gwnaiff Llywodraeth Cymru ofyn am Gofrestr a Chofnod Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus yn ystod yr arfarniad.

## ADRAN C – CYNLLUN EFFEITHLONRWYDD MAETHYNNAU

Rhaid i'r Cynllun Effeithlonrwydd Maethynnau fanylu ynghylch sut bydd y buddsoddiad arfaethedig yn gwella rheolaeth maethynnau ar y ffarm a'r effaith a gaiff ar Nwyon Tŷ Gwydr.

Rhaid i'r ymgeisydd lenwi adran Cynllun Effeithlonrwydd Maethynnau'r **Ffurflen Meini Prawf, Effeithlonrwydd Maethynnau ac Effeithlonrwydd Dŵr** ar gael ar [Grant Cynhyrchu Cynaliadwy: llyfrynnau rheolau | beta.gov.wales]()

**Fformat yr Arfarniad**

Bydd arfarniad o'r cynllun yn cynnwys y canlynol:

- Gwerthusiad o'r cynllun
  - System ffermio, i gynnwys cnydio yn y gorffennol a'r dyfodol
  - Systemau a niferoedd da byw
  - Arfer Slyri/Gwrtaith Cyfredol – swm, casglu, polisi storio a lledaenu (yn cynnwys unrhyw wrtaith a brynwyd i mewn e.e. slwtsh carthion, gwrtaith dofednod ac ati)
- Arfarniad o unrhyw ganlyniadau sampl maethynnau pridd, yn cynnwys sut y gallai buddsoddiad effeithio ar y canlyniadau hyn.
- Os yw buddsoddiad ar gyfer cyfleusterau storio, cadarnhad o:
  a) Gyfanswm cyfaint y slyri a gynhyrchwyd mewn 160/190 diwrnod fel yn briodol ($m^3$)
  b) Cynhyrchiant slyri a amcenir (os yw'n wahanol i'r uchod) ($m^3$)
  c) Capasiti'r storfa slyri arfaethedig ($m^3$)
  d) Diffyg posibl os yw'n berthnasol ($m^3$)

- Arfarniad o risgiau a allai effeithio'n andwyol ar reoli maetholion, o ganlyniad i ddarparu'r prosiect hwn.
- Amlinelliad o arbedion cost a gwrtaith o ddefnyddio slyri/FYM yn effeithiol.

## ADRAN D – CYNLLUN EFFEITHLONRWYDD DŴR

Rhaid i'r Cynllun Effeithlonrwydd Dŵr amlinellu'r gofynion dŵr presennol a'r gost i'r fferm, ynghyd ag opsiynau a sut y bydd y buddsoddiad cyfalaf yn helpu i wella effeithlonrwydd dŵr.

Rhaid i'r ymgeisydd lenwi adran Cynllun Effeithlonrwydd Dŵr y **Ffurflen Meini Prawf Craidd, Effeithlonrwydd Maetholion ac Effeithlonrwydd Dŵr** sydd ar gael ar Grant Cynhyrchu Cynaliadwy: llyfrynnau rheolau | beta.gov.wales

### Fformat yr Arfarniad

Bydd arfarniad o'r cynllun yn cynnwys y canlynol:

- Gwerthusiad o'r cynllun:
  - Mentrau a system gynhyrchu a ddefnyddir;
  - Systemau a niferoedd da byw;
  - Cynnydd arfaethedig mewn maint gyr neu gynnydd mewn cnydio, os yw'n berthnasol.
- Gweithrediadau presennol sy'n defnyddio dŵr a chyfeintiau dŵr a ddefnyddir.
- Cost gyfredol y defnydd o ddŵr a'r gost rheoli dŵr cyfredol.
- Cyfaint y dŵr a gynaeafwyd / ailddefnyddiwyd neu a arbedwyd a'r costau cysylltiedig a arbedwyd (gan gynnwys costau gwaredu) o ganlyniad i bob argymhelliad.
- Arfarniad o gyfiawnhad o'r opsiynau a'r argymhellion ar gyfer gwella effeithlonrwydd dŵr (cyfalaf a di-gyfalaf).

## ADRAN E – MEINI PRAWF CRAIDD

Rhaid i'r ymgeisydd lenwi Adrannau 3 i 10 o'r **Ffurflen Meini Prawf Craidd, Effeithlonrwydd Maetholion ac Effeithlonrwydd Dŵr** ar gael ar Grant Cynhyrchu Cynaliadwy: llyfrynnau rheolau | beta.gov.wales

Mae SPG yn cynnig buddsoddiadau cyfalaf mewn offer a pheiriannau a nodwyd ymlaen llaw i fynd i'r afael ag effeithiau ar lygredd ffermydd a chynnig manteision clir a mesuradwy i'r fenter fferm a'r amgylchedd ehangach. Mae'r holl eitemau buddsoddi

sydd ar gael wedi'u pennu ymlaen llaw fel rhai sy'n bodloni amcanion ac yn gweddu'n dda yn strategol yn y cynllun.

**Fformat yr arfarniad**

Bydd arfarniad o'r Meini Prawf Craidd yn cynnwys y canlynol:

<u>Ariannol a Chydymffurfio</u>

- Asesiad o sut y caiff y prosiect ei ariannu yn ychwanegol at ddyfarnu grant.
- Rhesymoldeb y cynigion.
- Elw disgwyliedig, ariannol neu amgylcheddol.
- Adnabod risg.

<u>Darparu</u>

- Asesiad o'r angen am fuddsoddiad.
- Cynigion ar gyfer gweithredu/gosod. I gynnwys caniatâd lleoliad a chynllunio.
- Amserlenni ar gyfer darparu a chwblhau.
- Gwerthusiad o unrhyw risgiau a nodwyd a allai effeithio ar ddarpariaeth a phenderfyniadau a gynigiwyd gan yr ymgeisydd.

<u>Rheoli Gweithrediad</u>

- Asesiad o'r cynllun darparu, cynigion rheoli prosiect a gweithgareddau ac adnoddau a argymhellwyd i ddarparu'r buddsoddiad.

<u>Gwerth am Arian</u>

Cyfeirir at **DDYFYNBRISIAU** yn Adran B ar gyfer fformat yr asesiad.

<u>Dangosyddion a Chanlyniadau</u>

- Cadarnhad o swyddi a ddiogelwyd ac a grëwyd.

<u>Addasrwydd Buddsoddiad</u>

- Asesiad o angen a mantais y buddsoddiad i'r busnes.
- I ba raddau mae'r buddsoddiad yn darparu dull/ateb newydd neu wahanol i'r busnes presennol?

Themâu Trawsbynciol

- Tystiolaeth o sut y bydd y prosiect yn cyfrannu at themâu trawsbynciol:
  - Cyfle cyfartal o ran cydraddoldeb rhywiau
  - Datblygu cynaliadwy
  - Trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol
  - Y Gymraeg

Cynaliadwyedd Tymor Hir

- Gwerthusiad o gynigion i gynnal buddsoddiad ar ôl cwblhau'r prosiect ac amcanion ar ôl cwblhau buddsoddiad.

**ADRAN F – DOGFENNAETH A GYFLWYNWYD I GEFNOGI HAWLIADAU AM GRANT**

Gellir ond gwneud Hawliadau am Daliadau grant trwy gyfrif RPW ar-lein ar ôl cwblhau'r buddsoddiad, fel y'i cynigir yn y contract SPG, a'i dderbyn gan yr ymgeisydd. Rhaid cyflwyno dogfennau ategol gyda hawliad am y taliad trwy gyfrif RPW Ar-lein yr ymgeisydd.

Rhaid cyflwyno hawliad am daliad ar gyfer pob eitem fuddsoddi a rhaid i bob hawliad am daliad gael ei gefnogi gan anfonebau a thystiolaeth o dalu ar gyfer hawlio'r taliad, i'w ystyried yn ddilys gan Lywodraeth Cymru.

Caiff y taliad sy'n cael ei hawlio ei gapio i werth grant yr eitem fuddsoddi fel y'i cymeradwywyd yn y contract neu i'r swm a bennir ar ôl dilysu'r hawliad a chyflwyno'r dystiolaeth ategol, p'un bynnag yw'r lleiaf.

Os yw'r grant yn anghywir, caiff yr hawliad ei ostwng i'r swm sydd yn gymwys a chaiff y grant ei gyfrifo yn unol â hynny. Os yw'r camgymeriad yn fwy na 10% o'r cyfanswm caiff cosb ariannol ei weithredu.

**Gweithdrefnau Gwiriad Dilysu**

Bydd pob dogfen a gyflwynir gan yr ymgeisydd yn cefnogi hawliadau taliadau Gwaith Cyfalaf SPG, yn destun gwiriadau dilysu gweinyddol gan Lywodraeth Cymru cyn talu.

Bydd gwiriadau dilysu gweinyddol yn cynnwys y canlynol:

- Anfonebau wedi'u cyflwyno i gefnogi'r hawliad am daliad, a bod pob anfoneb yn dangos y canlynol:
  - Wedi'i farcio'n glir gydag 'ANFONEB' gan y cyflenwr;
  - Rhif adnabod unigryw;

  - Enw, cyfeiriad a gwybodaeth gyswllt yr ymgeisydd;
  - Enw a chyfeiriad cwmni'r cyflenwr;
  - Disgrifiad clir o'r gwaith y codir tâl amdano;
  - Y dyddiadau y darparwyd y nwyddau neu'r gwasanaeth (dyddiad cyflenwi);
  - Dyddiad yr anfoneb;
  - Y swm/symiau a godir;
  - Swm TAW os yw'n berthnasol;
  - Y cyfanswm sy'n ddyledus.
- Cytundeb Hur Bwrcas, lle bo hynny'n berthnasol, a bod y contract wedi'i wneud i ddeiliad y contract SPG.
- Darparwyd Datganiadau Banc ar gyfer pob trafodiad sy'n dangos eu bod wedi'u talu
- Cysoniad o'r hawliad, yr anfoneb a'r datganiad banc a gyflwynwyd. Os nad yw gwerth y trafodiad yn cyfateb i'r anfoneb, bydd gofyn i'r ymgeisydd neu'r cyflenwr gyflwyno dadansoddiad o'r taliad cyfan a'r anfonebau ategol.
- Os caiff taliadau siec ei gwneud bydd angen cyflwyno llun ffotograff o'r siec ysgrifenedig i'w chysylltu i'r anfoneb a'r datganiad banc.
- Mae cyflwyno'r hawliad a'r dogfennau ategol o fewn amserlen y cynllun.
- Mae manylion o'r nwyddau a anfonebwyd yn cyfateb i'r rhai a gymeradwywyd ar y contract ac y mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am daliad ar eu cyfer. Os nad yw'r disgrifiad a roddir yn rhoi digon o fanylion i ddilysu'r eitem a hawlir, gall Llywodraeth Cymru gysylltu â'r cwsmer/cyflenwr am anfoneb fwy manwl i ddangos yr hawliad a wnaed.
- Cadarnhau'r hawliad am daliad ac nid yw'r anfoneb yn cynnwys eitemau anghymwys, heb eu cymeradwyo o dan gontract.
- Dilysu fod y nwyddau neu'r gwasanaethau a anfonebwyd wedi'u darparu ar ôl dyddiad derbyn y contract, i gynnwys unrhyw flaendaliadau a dalwyd.
- Mae'r cyflenwr anfonebu'r un fath â'r un yn y dyfynbris a gymeradwywyd neu fod cais i newid cyflenwr wedi'i gyflwyno a'i gytuno â Llywodraeth Cymru cyn gwneud hawliad.
- Sicrhau bod caniatâd cynllunio wedi'u derbyn a'u gwirio cyn y taliad.
- Mae'r holl eitemau buddsoddi dan gontract wedi'u prynu, eu cwblhau, eu hawlio a'u talu er mwyn cwrdd â chymhwyster y cynllun.